# YR ATODLENNI

## ATODLEN 4

Erthygl 16

### Y DARPARIAETHAU O RAN YMGYMERWYR STATUDOL, ETC.

**1.** Mae adrannau 271 i 274 o Ddeddf 1990 (y pŵer i ddiddymu hawliau ymgymerwyr statudol, etc. a phŵer ymgymerwyr statudol, etc. i symud neu adleoli cyfarpar) yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw dir a gaffaelwyd neu a berchnogwyd gan Network Rail o dan y Gorchymyn hwn, yn ddarostyngedig i ddarpariaethau canlynol yr Atodlen hon: ac mae holl gyfryw ddarpariaethau eraill y Ddeddf honno sy'n gymwys at ddibenion y darpariaethau hynny (gan gynnwys adrannau 275 i 278, sy'n cynnwys darpariaethau canlyniadol i ddiddymu unrhyw hawliau o dan adrannau 271 a 272, ac adrannau 279(2) i (4), 280 a 282, sy'n darparu ar gyfer digolledu) yn cael effaith yn unol â hynny.

**2.** Yn narpariaethau Deddf 1990, fel y'i cymhwysir gan baragraff 1, mae cyfeiriadau at y Gweinidog priodol yn gyfeiriadau at Weinidogion Cymru.

**3.** Pan symudir unrhyw gyfarpar ymgymerwyr cyfleustodau cyhoeddus neu ddarparwr cyfathrebu cyhoeddus yn unol â hysbysiad neu orchymyn a roddwyd neu a wnaed o dan adran 271, 272 neu 273 o Ddeddf 1990, fel y'u cymhwyswyd gan baragraff 1, bydd gan unrhyw berson sy'n berchennog neu'n feddiannydd mangre a oedd yn cael cyflenwad o'r cyfarpar hwnnw yr hawl i gael ei ddigolledu gan Network Rail mewn perthynas â gwariant a wnaed yn rhesymol gan y person hwnnw, oherwydd y symud, at ddibenion creu cysylltiad rhwng y fangre ac unrhyw gyfarpar arall sy'n rhoi cyflenwad.

**4.** Nid yw paragraff 3 yn gymwys yn achos symud carthffos gyhoeddus, ond pan symudir carthffos o'r fath yn unol â hysbysiad neu orchymyn o'r fath fel a grybwyllir yn y paragraff hwnnw, bydd unrhyw berson—

(a) sy'n berchennog neu'n feddiannydd mangre sydd â'i draeniau'n gysylltiedig â'r garthffos honno; neu

(b) sy'n berchennog carthffos breifat sy'n gysylltiedig â'r garthffos honno,

â'r hawl i gael ei ddigolledu gan Network Rail mewn perthynas â gwariant a wnaed yn rhesymol gan y person hwnnw, oherwydd y symud, at ddiben cysylltu draen neu garthffos sy'n eiddo i'r person hwnnw ag unrhyw garthffos gyhoeddus arall neu â gweithfeydd preifat i waredu carthion.

**5.** Nid yw darpariaethau Deddf 1990 a grybwyllir ym mharagraff 1, fel y cânt eu cymhwyso gan y paragraff hwnnw, yn cael effaith mewn perthynas â'r cyfarpar y mae Rhan 3 o Ddeddf 1991 yn gymwys mewn perthynas ag ef.

**6.** Nid oes dim yn yr Atodlen hon yn effeithio ar ddarpariaethau unrhyw ddeddfiad neu gytundeb i reoleiddio'r berthynas rhwng Network Rail ac ymgymerwr o ran unrhyw gyfarpar a osodir neu a godir ar dir sy'n eiddo i Network Rail ar y dyddiad pryd y gwneir y Gorchymyn hwn.

**7.** Yn yr Atodlen hon—

mae i "darparwr cyfathrebu cyhoeddus" yr un ystyr ag sydd i "public communications provider" yn adran 151(1) o Ddeddf Cyfathrebu 2003(**1**); ac

(**1**) 2003 p. 21.

mae i "ymgymerwyr cyfleustodau cyhoeddus" yr un ystyr ag sydd i "public utility undertakers" yn Neddf Priffyrdd 1980(**2**).

(**2**) 1980 p. 66.